



RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:

53/2021

DYDDIAD CYHOEDDI:

19/08/2021

Deall effaith Covid-19 ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yng Nghymru: Adroddiad Terfynol

Teitl: Deall effaith Covid-19 ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth
Gyngor yng Nghymru
Isdeitl: Adroddiad Terfynol

Awdur(on): Zoe Charlesworth, Fabiana Macor, Zach Mills, a
Sam Tims, y cwbl yn Policy in Practice

Adroddiad Ymchwil Llawn: Charlesworth, Z; Macor, F; Mills, Z; Tims, S; (2021).
*Deall effaith Covid-19 ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yng
Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol
y Llywodraeth 53/2021.

Ar gael yn: <https://llyw.cymru/cynllun-gostyngiadau-dreth-gyngor-coronafirws-covid-19-yng-nghymru>

Barn yr ymchwilydd yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid
ydynt o reidrwydd yn cynrychioli safbwyntiau Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:
Dr John Broomfield
Is-adran Cyllid Strategol Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
localtaxationpolicy@llyw.cymru

Cynnwys

Rhestr o dablau.....	2
Rhestr o ffigyrau.....	3
1. Cyflwyniad.....	4
Cefndir.....	6
Ein dull ymchwilio.....	9
2. Newidiadau i lwyth achosion oedran gwaith y Cynllun Gostwng	11
Amrywiadau rhanbarthol	15
3. Newidiadau i werth dyfarniadau'r Cynllun Gostwng	19
Cyfanswm gwerth dyfarniadau oedran gweithio y Cynllun Gostwng	19
Dyfarniadau Wythnosol y Cynllun Gostwng	20
Amrywiad rhanbarthol yng ngwerth blynyddol Dyfarniadau oedran gwaith y Cynllun Gostwng yng Nghymru.....	22
4. Ôl-ddyledion y dreth gyngor	24
Cyfran llwyth achosion y Cynllun Gostwng mewn ôl-ddyledion	24
Lefel gyfartalog yr ôl-ddyledion	27
5. Rhagweld y newid posibl yn llwyth achosion oedran gweithio a dyfarniadau'r Cynllun Gostwng hyd at fis Ebrill 2022.....	29
Methodoleg	30
Effaith ragweledig ar lwyth achosion oedran gweithio y Cynllun Gostwng	30
Effaith ragweledig ar werth blynyddol dyfarniadau'r Cynllun Gostwng i aelwydydd oedran gweithio	31
6. Casgliad	33
Prif Ganfyddiadau	38
Cyfeiriadau.....	39
Atodiad A – Rhestr o gynghorau sy'n cymryd rhan yn yr ymchwil hwn	40
Atodiad B - Rhestr o gynghorau a ddarparodd ddata ôl-ddyledion y dreth gyngor ar gyfer yr ymchwil hwn.....	41

Rhestr o dablau

Tabl 2.1: Newid yn llwyth achosion oedran gweithio y Cynllun Gostwng, mis Tachwedd 2019 i fis Ebrill 2021	15
Tabl 3.1: Newid yng nghyfanswm gwerth dyfarniadau oedran gweithio y Cynllun Gostwng yng Nghymru Mis Tachwedd 2019 i fis Ebrill 2021	20
Tabl 3.2: Newid yn nyfarniadau wythnosol cyfartalog y Cynllun Gostwng yng Nghymru – mis Tachwedd 2019 i fis Ebrill 2021	22
Tabl 4.1: Cymhariaeth o gyfran aelwydydd y Cynllun Gostwng ag ôl-ddyledion y dreth gyngor, o fis Medi 2019, mis Medi 2020 a mis Ebrill 2021 (yn seiliedig ar y pedwar cyngor)	25
Tabl 4.2: Y gyfran o lwyth achosion oedran gweithio y Cynllun Gostwng ag ôl-ddyledion y dreth gyngor ymhlith aelwydydd incwm isel yn ardal pedwar Cyngor yng Nghymru yn ôl math o fudd-dal - mis Medi 2019, mis Medi 2020, a mis Ebrill 2021.....	26
Tabl 4.3: Cymhariaeth o'r gyfran o aelwydydd y Cynllun Gostwng ag ôl-ddyledion y dreth gyngor, o fis Medi 2019, mis Medi 2020 a mis Ebrill 2021 (yn seiliedig ar y pedwar cyngor)	28
Tabl 4.4: Lefel gyfartalog yr ôl-ddyledion ymhlith carfan oedran gweithio y Cynllun Gostwng ar draws pedwar cyngor yng Nghymru yn ôl statws economaidd - mis Medi 2019, mis Medi 2020 a mis Ebrill 2021	28
Tabl 5.1: Newid yn llwyth achosion oedran gweithio y Cynllun Gostwng - mis Ebrill 2021 i fis Ebrill 2022	31
Tabl 5.2: newid yng nghyfanswm gwerth oedran gweithio'r Cynllun Gostwng - mis Ebrill 2021 i fis Ebrill 2022	32

Rhestr o ffigyrau

Ffigwr 2.1: Newid yn y nifer o aelwydydd oedran gweithio yn derbyn y Cynllun Gostwng, mis Tachwedd 2019 i fis Ebrill 2021	11
Ffigwr 2.2: Ystod y cynnydd % mewn llwyth achosion oedran gweithio y Cynllun Gostwng ledled cyngorau Cymru, rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Ebrill 2021	16
Ffigwr 2.3: Ystod y cynnydd % mewn llwyth achosion Credyd Cynhwysol y Cynllun Gostwng ledled cyngorau Cymru o fis Tachwedd 2019 i fis Ebrill 2021	18
Ffigwr 3.3: Ystod y cynnydd % mewn gwerth blynyddol dyfarniadau oedran gweithio y Cynllun Gostwng ledled Cyngorau Cymru o fis Tachwedd 2019 i fis Ebrill 2021 ..	23
Ffigwr 4.1 Cyfran o aelwydydd incwm isel mewn ôl-ddyledion y dreth gyngo	27

1. Cyflwyniad

- 1.1 Ym mis Ionawr 2019, rhoddodd Lywodraeth Cymru gomisiwn i Policy in Practice i ymchwilio i effaith Credyd Cynhwysol ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Cynllun Gostwng) ac ôl-ddyledion rhent yng Nghymru. Cyhoeddwyd yr [adroddiad](#) ym mis Gorffennaf 2020 (Llywodraeth Cymru, 2020)..
- 1.2 Ers cyhoeddi'r adroddiad, mae'r DU wedi cael sioc economaidd oherwydd pandemig Covid-19. Yr ymateb cychwynnol mwyaf sylweddol i'r pandemig gan Lywodraeth y DU oedd cau'r economi'n rhannol tua diwedd mis Mawrth 2020, yn arwain at ostyngiad cyflym yn y gweithgarwch economaidd ar draws pob sector¹. Ochr yn ochr â hyn cafwyd cynnydd cyfatebol yn y nifer o bobl yn hawlio Credyd Cynhwysol ledled y DU.
- 1.3 Mae'r pandemig wedi parhau i effeithio'r economi byth ers hynny. Ers ail chwarter 2020, mae'r ymateb gan genedlaethau datganoledig wedi [amrywio](#) i ymateb Llywodraeth y DU (Sargeant, 2020), gyda'r rheolau yn nodweddiadol yn fwy gofalus yng Nghymru mewn cymhariaeth â Lloegr. Yng Nghymru, dechreuodd y cyfyngiadau lleol gael eu hail-gyflwyno o fis Medi 2020. Yna cafwyd 'cyfnod atal byr' mewn ymgais i osgoi cynnydd yn y nifer o achosion². Cafwyd cyfnod clo cenedlaethol arall rhwng mis Rhagfyr 2020 a mis Mawrth 2021 pan laciwyd y cyfyngiadau yn araf unwaith eto.
- 1.4 Er mwyn deall sut mae cwmp economaidd y pandemig wedi effeithio ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ac ôl-ddyledion y dreth gyngor yng Nghymru, gofynnodd Llywodraeth Cymru i Policy in Practice ymgymryd ag estyniad i'r ymchwiliad cychwynnol. Mae Llywodraeth Cymru eisiau deall sut mae llwyth achosion Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a gwerth dyfarniadau Gostyngiadau yn y Dreth Gyngor wedi'u heffeithio ers dechrau'r pandemig, ynghyd ag unrhyw effaith ar ôl-ddyledion y dreth gyngor yng Nghymru.

¹ Er bod pob sector wedi gweld gostyngiad mewn gweithgarwch economaidd, roedd dyfnder yr effaith yn amrywio'n sylweddol yn ôl sector, gyda nifer o fusnesau yn y sectorau manwerthu a lletygarwch yn gorfod rhoi'r gorau i fasnachu dros dro.

Mae ² [amserlen](#) ar gael gan y Sefydliad Llywodraethu.

- 1.5 Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru eisiau deall y newid tebygol yn llwyth achosion y Cynllun Gostwng, newid amcanol yng nghyfanswm gwerth dyfarniadau'r Cynllun Gostwng, ac effaith amcanol ar ôl-ddyledion y dreth gyngor yng Nghymru, ar gyfer dechrau blwyddyn ariannol 2022.
- 1.6 Mae'r estyniad i'r ymchwil cychwynnol yn cymharu data llwyth achosion y Cynllun Gostwng, gwerth y dyfarniadau ac ôl-ddyledion y dreth gyngor ym mis Ebrill 2021 â meincnodau cyn y pandemig yn 2019. Mae dadansoddiad cyffelyb mewn perthynas â mis Medi 2020 wedi'i gyflwyno eisoes mewn [adroddiad dros dro](#) (Llywodraeth Cymru, 2021), y cyfeirir ato drwy gydol yr adroddiad hwn fel Adroddiad Dros Dro, ac mae'n dangos:
- cynnydd o 5% yn llwyth achosion oedran gweithio y Cynllun Gostwng ledled Cymru, a oedd yn amrywio yn ôl math y budd-dal ac ar draws awdurdodau lleol;
 - cynnydd o 52% i'r nifer o aelwydydd oedran gweithio sy'n derbyn Credyd Cynhwysol tra gwelwyd gostyngiad o 14% yn y nifer o aelwydydd oedran gweithio sy'n cael budd-daliadau etifeddol;
 - bod cynnydd i lwyth achosion oedran gweithio y Cynllun Gostwng yn amrywio rhwng 3% a 18% ar draws awdurdodau lleol³;
 - cynnydd o 11% (£18 miliwn) i gyfanswm gwerth dyfarniadau'r Cynllun Gostwng ar draws aelwydydd oedran gweithio yng Nghymru, yn amodol ar amrywiaeth yn ôl math y budd-dal a'r awdurdod lleol; a
 - chynnydd bach (2%) yn y gyfran o aelwydydd oedran gweithio yn derbyn y Cynllun Gostwng ac ôl-ddyledion y dreth gyngor⁴, yn cuddio amrywiaeth sylweddol ar draws awdurdodau lleol.
- 1.7 Roedd yr Adroddiad Dros Dro hefyd yn modelu'r cynnydd tebygol yn llwyth achosion y Cynllun Gostwng erbyn mis Ebrill 2021, pan fyddai'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (CCSC neu ffyrlo) a'r Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig (Cynllun Cymorth Incwm) yn dod i ben. Yn sgil ansicrwydd ynghylch parhad mesurau cymorth llesiant dros dro (£20/wythnos yn ychwanegol at

³ Yn seiliedig ar y 18 awdurdod lleol yng Nghymru a ddarparodd ddata.

⁴ Ar gyfer saith awdurdod lleol a gyflenwodd data ôl-ddyledion y dreth gyngor ym mis Medi 2020.

Gredyd Cynhwysol a chyfwerth yn achos rhai budd-daliadau etifeddol⁵), ystyriwyd dwy sefyllfa: y gyntaf gyda'r mesurau budd-dal yn cael eu cadw a'r ail gyda mesurau budd-dal yn cael eu dileu. Roedd y canlyniadau a fodelwyd yn rhagweld:

- cynnydd yn llwyth achosion oedran gweithio y Cynllun Gostwng yn amrywio o 5,800 a 7,100 (mesurau sydd wedi'u cadw a'u dileu, yn y drefn honno); a
- chynnydd yng nghyfanswm gwerth dyfarniadau oedran gweithio y Cynllun Gostwng yn amrywio rhwng £23 a £25 miliwn (mesurau sydd wedi'u cadw a'u dileu, yn y drefn honno).

- 1.8 Mae'r adroddiad hwn yn darparu canlyniadau wedi'u diweddarau yn seiliedig ar gyfuniadau data mis Ebrill 2021⁶ ac yn ystyried y datblygiadau diweddaraf mewn polisi llesiant. Yn benodol, mae'r adroddiad hwn yn ystyried rhagolygon economaidd diweddaraf y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) yng ngoleuni'r estyniad o bum mis i'r cynllun ffyrlo a'r newidiadau dros dro i Gredyd Cynhwysol, a fydd yn parhau i fod ar waith hyd at fis Medi 2021.

Cefndir

- 1.9 Ers iddo ddechrau ym mis Mawrth 2020, mae'r pandemig Covid-19 wedi creu argyfwng iechyd ac economaidd heb ei debyg yn yr oes fodern, gyda chyfyngiadau yn cael eu cyflwyno ar y lefel o weithgarwch economaidd mewn ymgais i reoli lledaeniad y feirws. O ail chwarter 2020, ymyrrodd Llywodraeth y DU i gefnogi incwm y rheiny wedi'u heffeithio gan rannau o'r economi a oedd yn gorfod cau drwy gynlluniau disodli enillion o hyd at 80% o gyflogau⁷ a chyfres o grantiau trethadwy i'r hunangyflogedig, gyda'r bwriad i gyflenwi tri mis, hyd at naill ai 30% neu 80%⁸ o elw masnachu cyfartalog dros 3 mis.
- 1.10 Mae cyflwyno'r cynlluniau cymorth incwm hyn, y Cynllun Cadw Swyddi drwy Gyfnod y Coronafeirws (CCSC) a'r Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig drwy gyfnod

⁵ Di-ystyriaethau incwm Credydau Treth a Budd-dal Tai (yn berthnasol i incwm a enillir ac incwm heb ei ennill).

⁶ Cafodd data ei gyflenwi gan 19 o awdurdodau lleol yng Nghymru ac fe'i estynnwyd i adlewyrchu Cymru gyfan.

⁷ Cyfyngiad o £2,500 yn berthnasol.

⁸ Mae cyfanswm o bum grant wedi'u talu. Cafodd lefel y taliad ar gyfer y pedwar grant cyntaf ei gosod ar 80% o elw masnachu (gyda chyfyngiad o £7,500). Ar gyfer y pumed grant, cafodd lefel y taliad (a'r cyfyngiad cysylltiedig) ei gosod ar ddwy lefel yn dibynnu ar y gostyngiad mewn trosiant: 30% os oedd y gostyngiad yn llai na 30% ac 80% os oedd y gostyngiad yn 30% neu fwy (gyda chyfyngiad o £2,850 a £7,500 yn eu trefn).

Coronafeirws (Cynllun Cymorth Incwm), wedi bod yn effeithiol yn atal cynnydd sydyn mewn diweithdra torfol yn y DU ac yng Nghymru, fel y rhagwelwyd ar ddechrau'r pandemig. Mae defnydd o'r CCSC wedi newid dros amser: yn ei anterth ar ddechrau mis Gorffennaf 2020, fe gefnogodd y CCSC gyflogau 250,000⁹ o swyddi yng Nghymru. Yna gostyngodd y nifer o gyflogeion i 110,000 ym mis Medi 2020 cyn cynyddu eto a chyrraedd ail frig, llai sylweddol, o 190,000 ym mis Ionawr 2021. Hyd at fis Ebrill 2021, roedd 130,000 o gyflogeion ar ffyrlo yng Nghymru.

- 1.11 Er nid yw pob swydd wedi'i chadw ac nid yw pob cyflog wedi'i gefnogi ar lefelau cyn-Covid. Y gyfradd ddiweithdra yng Nghymru cyn y pandemig oedd 3.8% ac mae wedi bod yn cynyddu'n araf, gan gyrraedd uchafbwynt o 4.8% erbyn mis Ionawr 2021 cyn gostwng i 3.9% ers y cyhoeddiad diweddaraf (mis Ebrill 2021)¹⁰. Yn wahanol i amrywiadau i CCSC, mae'r nifer o aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol wedi bod yn cynyddu'n barhaus: i ddechrau ar gyfradd gyflym yn y chwe mis hyd at fis Gorffennaf 2020 (cynnydd o 90,000 neu 71%) ac yna'n fwy graddol, gyda 21,000 aelwyd ychwanegol yn hawlio Credyd Cynhwysol rhwng mis Gorffennaf 2020 a mis Chwefror 2021¹¹.
- 1.12 Disgwylir rhagor o gynnydd mewn diweithdra a dibyniaeth ar fudd-daliadau prawf modd. Cyn y cyhoeddwyd estyniad yng Nghyllideb y Gwanwyn, roedd cefnogaeth Llywodraeth y DU i gyflogau drwy'r CCSC a'r Cynllun Cymorth Incwm i fod i ddod i ben ym mis Ebrill 2021. Disgwylir i'r estyniad i'r cynlluniau hyn wanhau ac oedi graddau cyflogaeth y dyfodol. Yn eu Economic & Fiscal Outlook diweddaraf ym mis Mawrth 2021, rhagwelodd Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) y byddai diweithdra yn y DU yn cyrraedd uchafbwynt o 6.5% (2.2 miliwn) erbyn diwedd 2021. Nid oedd rhagfynegiadau penodol i Gymru ar gael ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn¹².

⁹ Roedd y ffigyrau (240,000) a oedd ar gael ar adeg ysgrifennu'r Adroddiad Dros Dro yn ffigyrau dros dro ac ers hynny maent wedi'u diwygio, a'u cynyddu.

¹⁰ Er y cafwyd amrywiaeth nodedig bob mis yn 2020, yn 2021 hyd yn hyn mae diweithdra wedi gweld gostyngiad nodedig. Gweler: [Y Swyddfa Ystadegol, Cyfradd diweithdra Cymru ILO](#)

¹¹ Ffynhonnell: [StatXplore "Households on Universal Credit"](#).

¹² Fodd bynnag, mae dadansoddiad gan [Brifysgol Caerdydd](#) (Ifan et al., 2021) yn nodi y byddai cynnydd cymesur yng Nghymru yn cyfateb i gynnydd o 87,000, yn unol â'r fethodoleg a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn.

1.13 Mae'n werth nodi nad yw cynnydd mewn diweithdra yn ddisgwyliedig i fapio'n union cynnydd yn llwyth achosion y Cynllun Gostwng neu werth y dyfarniadau y Cynllun Gostwng. Mae llwyth achosion y Cynllun Gostwng yn cynrychioli dim ond is-adran o aelwydydd incwm isel. Mae'n cynnwys aelwydydd sydd wedi hawlio Credyd Cynhwysol, neu sy'n parhau i dderbyn budd-daliadau etifeddol, ac sydd hefyd yn gymwys am ddyfarniadau'r Cynllun Gostwng. Mae nifer o fathau o aelwydydd na fyddai'n gweddu i'r categori hwn petaent yn gweld gostyngiad yn eu hincwm neu'n mynd yn ddi-waith. Er enghraifft:

- Y rheiny nad oes gofyn iddynt dalu'r dreth gyngor, megis pobl ddi-waith sy'n byw yng nghartref aelod o'u teulu. Yn nodweddiadol, mae'r grŵp hwn yn cynnwys oedolion ieuengach yn byw yng nghartref eu rhieni.
- Y rheiny nad ydynt yn gymwys am fudd-daliadau prawf modd oherwydd bod ganddynt gynilion o dros £16,000 neu oherwydd lefel enillion eu partner.
- Y rheiny nad ydynt yn gymwys am fudd-daliadau prawf modd oherwydd eu statws mewnfudo neu oherwydd eu bod yn fyfyrwyr.
- Y rheiny sy'n derbyn Credyd Cynhwysol neu fudd-dal etifeddol nad ydynt yn gwneud cais i'w cyngor lleol am ostyngiad yn y dreth gyngor.
- Y rheiny sy'n derbyn Credyd Cynhwysol y mae eu hincwm yn ddigon isel i gymhwyso am Gredyd Cynhwysol ond nad ydynt yn gymwys am ostyngiad yn y dreth gyngor oherwydd eu hincwm neu oherwydd bod oedolion eraill yn byw yn eu cartref a byddai disgwyl iddynt gyfrannu at daliadau'r dreth gyngor.

1.14 Yn ogystal ag aelwydydd sy'n profi colled mewn incwm, neu ddiweithdra, ac nad ydynt yn gymwys am ddyfarniadau'r Cynllun Gostwng, yn nodweddiadol bydd ffigyrau llwyth achosion y Cynllun Gostwng yn gweld oedi yn y cynnydd mewn diweithdra oherwydd oedi yn hawlio cymorth llesiant, diffyg dealltwriaeth ynghylch sut i ddefnyddio'r tirlun cymorth llesiant, ac oediadau gweinyddol mewnol (megis 'arhosiad pum wythnos' y Credyd Cynhwysol).

Ein dull ymchwilio

- 1.15 I ddeall effaith Covid-19 ar y Cynllun Gostwng yng Nghymru, gwnaethpwyd cymhariaeth o ddata cyn y pandemig (Tachwedd 2019¹³) â data cyfredol (Ebrill 2021). Yna caiff hyn ei ystyried ochr yn ochr â dadansoddiad a nodwyd yn yr Adroddiad Dros Dro, a oedd yn cymharu'r un data Tachwedd 2019 â data mis Medi 2020.
- 1.16 Roedd y data ar gyfer dadansoddiad y Cynllun Gostwng yn cynnwys Detholiad Budd-dal Tai Sengl a detholiad y Cynllun Gostwng. Caiff y cyfuniadau data hyn eu defnyddio gan gynghorau Cymru i weinyddu'r Budd-dal Tai a'r Cynllun Gostwng yn eu trefn. Darparodd 19 o'r 22 cyngor yng Nghymru y cyfuniadau data hyn yn llawn ar gyfer mis Ebrill 2021¹⁴. Caiff y data ei gymharu â'r data a gedwir yn y cyfuniadau data cyfwerth ar gyfer mis Tachwedd 2019.
- 1.17 Cyflenwyd y data 2019 gan gynghorau Cymru fel rhan o'r ymchwil cychwynnol yr ymgwymerwyd ag ef gan Policy in Practice ar ran Llywodraeth Cymru. I amcangyfrif llwyth achosion y Cynllun Gostwng ledled Cymru gyfan, mae'r llwyth achosion ar gyfer y tri chyngor na gyflenwodd data ym mis Ebrill 2021 wedi'i allosod. Felly, dylid dehongli unrhyw gyfeiriad at ffigyrau ledled Cymru gyfan fel amcangyfrifon. Drwy gydol yr adroddiad hwn, mae'r ffigyrau wedi'u talgrynnu i lefel sy'n rhesymol o ystyried maint y gwerth. Mae rhestr o'r cynghorau yng Nghymru a roddodd data llwyth achosion y Cynllun Gostwng ar gyfer mis Ebrill 2021 ac ym mis Medi 2020 i'w chael yn Atodiad A.
- 1.18 Mae'r dadansoddiad o newid mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor yn seiliedig ar ddata ôl-ddyledion y dreth gyngor gan bedwar cyngor ar gyfer y meincnod cyn Covid (mis Medi 2019), mis Medi 2020 a mis Ebrill 2021. Mae'r data hwn wedi'i brosesu a'i gyfuno â data Detholiad Budd-dal Tai Sengl a'r Cynllun Gostwng. Darparodd cyfanswm o wyth cyngor yng Nghymru ddata ôl-ddyledion ar gyfer yr ymchwil hwn, gan gynnwys canfyddiadau'r Adroddiad Dros Dro. Gweler rhestr ohonynt yn Atodiad B.


¹³ Yn achos y pedwar cyngor heb ddata mewn perthynas â mis Tachwedd 2019, defnyddiwyd data mis Gorffennaf 2019 yn hytrach.

¹⁴ Darparodd 18 o'r 22 cyngor yng Nghymru y cyfuniadau data hyn yn llawn ar gyfer mis Medi 2020.

- 1.19 Gweler manylion ein dull methodolegol yn yr [ymchwil gwreiddiol](#) (Llywodraeth Cymru, 2020). Rhoddir peth gwybodaeth ychwanegol yng nghorff yr adroddiad hwn.

2. Newidiadau i lwyth achosion oedran gwaith y Cynllun Gostwng

Ffigwr 2.1: Newid yn y nifer o aelwydydd oedran gweithio yn derbyn y Cynllun Gostwng, mis Tachwedd 2019 i fis Ebrill 2021



- 2.1 O fis Tachwedd 2019 i fis Ebrill 2021, mae llwyth achosion oedran gweithio y Cynllun Gostwng yng Nghymru wedi cynyddu o oddeutu 10,900 o aelwydydd. Mae hwn yn gynydd o 6%. Awgrymodd yr Adroddiad Dros Dro fod y llwyth achosion wedi cynyddu o 9,200 o aelwydydd (5%) rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Medi 2020. Mae'r cynnydd bach mewn llwyth achosion o fis Medi 2020 i fis Ebrill 2021 yn awgrymu arafu yng nghynydd cyffredinol y llwyth achosion o ganlyniad i'r pandemig.
- 2.2 Yn gyffredinol, mae tuedd yn newid y llwyth achosion a welwyd rhwng mis Tachwedd 2019 i fis Medi 2020 (fel yr adroddwyd yn yr Adroddiad Dros Dro) wedi parhau hyd at fis Ebrill 2021 ond yn arafach. Mae hyn yn arwain at gynydd

cyfatebol yn yr aelwydydd oedran gweithio, sy'n derbyn Credyd Cynhwysol, ac sydd allan o waith.

Math o fudd-dal

- 2.3 Rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Ebrill 2021 gwelwyd cynnydd cymesur yn llwyth achosion oedran gweithio'r Cynllun Gostwng sy'n derbyn Credyd Cynhwysol. Mae'r cynnydd hwn yn llwyth achosion Credyd Cynhwysol yn cynrychioli hawliadau newydd yn ogystal ag aelwydydd yn trosglwyddo o fudd-daliadau etifeddol yn sgil newid yn eu hamgylchiadau.
- 2.4 Cynyddodd y nifer o aelwydydd oedran gweithio y Cynllun Gostwng sy'n derbyn Credyd Cynhwysol o 72% (35,400 o aelwydydd) rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Ebrill 2021. Adroddodd yr Adroddiad Dros Dro gynnydd o 52% yn aelwydydd sy'n hawlio Credyd Cynhwysol o fis Tachwedd 2019 i fis Medi 2020. Felly mae'r cynnydd hwn hyd at fis Ebrill 2021 yn parhau ond ar gyfradd arafach.
- 2.5 Yn ystod yr un cyfnod, mae'r nifer o aelwydydd oedran gweithio sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol wedi gostwng o 20% (24,600 o aelwydydd), eto yn unol â'r tueddiadau a welwyd ym mis Medi 2020 (pan ostyngodd llwyth gwaith etifeddol o 14%), er ar gyflymder arafach.

Oedran gweithio ac oedran pensiwn

- 2.6 Yn gyffredinol, mae'r newid yn y nifer o aelwydydd oedran gweithio yn llwyth achosion y Cynllun Gostwng wedi cynyddu o 10,900 rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Ebrill 2021. Yn ystod yr un cyfnod, mae gostyngiad o 2,500 wedi bod yn y llwyth achosion oedran pensiwn. Mae'r gostyngiad graddol yn aelwydydd oedran pensiwn yn hirsefydlog yn annhebygol o fod yn gysylltiedig â phandemig Covid-19¹⁵. Fel y pwysleisiwyd yn [Adroddiad Blynnyddol y Cynllun Gostwng](#) (Llywodraeth Cymru, ar y gweill 2021), mae'r cynnydd diweddar i Oedran Pensiwn Gwladol yn debygol o fod yn ffactor sydd wedi cyfrannu at hyn ac mae'n bosibl bod carfanau newydd o bensiynwyr yn llai tebygol o wneud cais am y Cynllun Gostwng (oherwydd incymau uwch a'u bod yn berchnogion-feddianwyr).

Mae¹⁵ [dadansoddiad IFS](#) yn awgrymu fod, rheolaeth dros oedran a demograffeg arall, cynlluniau ymddeol aelwydydd incwm isel wedi bod yn weddol sefydlog (Crawford a Karjalainen, 2020). t.20.

Yn derbyn budd-daliadau anabledd

- 2.7 Mae cynnydd cyffredinol (+4,400) wedi bod yn y nifer o aelwydydd oedran gweithio yn llwyth achosion y Cynllun Gostwng sy'n derbyn budd-daliadau anabledd. Mae hwn yn gynnydd o 5%. Yn fras, mae hyn yn unol â'r cynnydd cyffredinol o 6% yn y llwyth achosion oedran gweithio ac mae'n golygu bod y gyfran o aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau anabledd wedi parhau i fod yn sefydlog rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Ebrill 2021.
- 2.8 Mae'r cynnydd bach a welwyd rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Ebrill 2021 yn y niferoedd yn llwyth achosion y Cynllun Gostwng sy'n derbyn budd-daliadau anabledd i'r gwrthwyneb i ostyngiad bach a adroddwyd yn yr Adroddiad Dros Dro ar gyfer y cyfnod rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Medi 2020. Mae ymchwilio i achos y tuedd hwn y tu hwnt i gwmpas yr ymchwil hwn. Serch hynny, mae'n bosibl bod tueddiadau a welir yn yr Adroddiad Dros Dro yn cynrychioli'r ymyrraeth dros dro i hawliadau, ail-asesiadau ac apeliadau i hawlwr sy'n byw gyda salwch neu anabledd, a bod hyn wedi'i gywiro wrth i systemau gweinyddol addasu'n well i'r pandemig¹⁶.

Cyflogaeth

- 2.9 Rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Ebrill 2021, mae'r nifer o aelwydydd oedran gweithio yn llwyth achosion y Cynllun Gostwng yng Nghymru wedi gweld cynnydd o 11,900 (cynnydd o 8%). Mae hyn yn gynnydd bach ar y cynnydd o 7% i aelwydydd di-waith a welwyd ym mis Medi 2020.
- 2.10 Mae'r nifer o aelwydydd mewn gwaith yn llwyth achosion y Cynllun Gostwng yng Nghymru wedi gostwng o 1,000 rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Ebrill 2021 (gostyngiad o 3%). Er bod diffiniad 'mewn gwaith' yn cuddio peth newidiadau yn yr aelwyd i gyplau¹⁷, mae hyn yn gyson â newidiadau i ddiweithdra yng Nghymru yn ystod yr un cyfnod yn ogystal â rôl ffyrlo yn atal diweithdra torfol¹⁸.

¹⁶ [Ystadegau Taliadau Annibyniaeth Personol hyd at fis Ionawr 2021 - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk)

¹⁷ Yn achos cyplau, ystyrir bod yr aelwyd mewn gwaith os yw naill ai'r prif hawliwr neu ei bartner mewn gwaith.

¹⁸ O ystyried fod niferoedd y CCSC wedi bod yn gostwng ers mis Ionawr 2021, mae'r gostyngiad cymharol isel i aelwydydd mewn gwaith hefyd yn gyson â [chanfyddiadau cynnar](#) (Bell et al., 2021) yn dangos fod y rhan fwyaf o'r rheiny a oedd yn gadael ffyrlo wedi dod o hyd i waith.

Cyfansoddiad aelwydydd

- 2.11 O fis Tachwedd 2019 i fis Ebrill 2021, cynyddodd llwyth achosion y Cynllun Gostwng yng Nghymru ar gyfer pob math o aelwydydd yn nhermau absoliwt. Wedi dweud hynny, mae newidiadau bach wedi bod yng nghynrychiolaeth gyfrannol gwahanol fathau o aelwydydd.
- 2.12 Mae'r cynnydd enwol mwyaf yn llwyth achosion y Cynllun Gostwng yn cyfeirio at aelwydydd unigolion sengl (+8,100 o aelwydydd, cynnydd o 10%). Mae aelwydydd unigolion sengl yn cyfrif am oddeutu hanner llwyth achosion oedran gwaith y Cynllun Gostwng yng Nghymru. Mae'r gyfran o aelwydydd unigolion sengl yn llwyth achosion y Cynllun Gostwng yng Nghymru wedi cynyddu o 49% ym mis Ebrill 2019 i 51% ym mis Ebrill 2021.
- 2.13 Mae'r nifer o aelwydydd mewn grwpiau eraill wedi parhau i fod yn weddol sefydlog. Yn benodol, mae cynnydd bach wedi bod yn y nifer o gyplau â phlant (600 o aelwydydd, cynnydd o 3%) sy'n cyferbynnu â'r cynnydd enwol mwy sylweddol a welwyd yn y grŵp hwn yn 2020 (1,900 o aelwydydd).


Tabl 2.1: Newid yn llwyth achosion oedran gweithio y Cynllun Gostwng, mis Tachwedd 2019 i fis Ebrill 2021

	2019		2021		Newid rhwng 2019 a 2021	
	Aelwydydd	% llwyth achosion	Aelwydydd	% llwyth achosion	Aelwydydd	% llwyth achosion
Cyfanswm llwyth achosion oedran gweithio	171,700	62%	182,500	64%	10,900	6%
Credyd Cynhwysol	49,400	29%	84,800	46%	35,400	72%
Budd-daliadau etifeddol	122,300	71%	97,700	54%	-26,600	-20%
Statws cyflogaeth						
Mewn gwaith	31,500	18%	30,500	17%	-1,000	-3%
Di-waith	140,100	82%	152,000	83%	11,900	8%
Anabled						
Budd-daliadau anabled	87,600	51%	92,100	50%	4,400	5%
Cyfansoddiad aelwyd						
Sengl	84,200	49%	92,300	51%	8,100	10%
Cwpl heb blant	18,000	11%	18,700	10%	700	4%
Cwpl â phlant	20,300	12%	21,100	12%	800	4%
Unig riant	49,100	29%	50,400	28%	1,300	3%

Amrywiadau rhanbarthol

- 2.14 Bu i'r Adroddiad Dros Dro ganfod amrywiad rhanbarthol yn llwyth achosion y Cynllun Gostwng rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Medi 2020. Rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Ebrill 2021, mae'r tuedd hwn wedi parhau. Mae amrywiad rhanbarthol yn parhau i fod yn sylweddol ac wedi cynyddu mewn cymhariaeth â mis Medi 2020.

Ffigwr 2.2: Ystod y cynnydd % mewn llwyth achosion oedran gweithio y Cynllun Gostwng ledled cynghorau Cymru, rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Ebrill 2021



- 2.15 Gofynnodd Policy in Practice i gynghorau Cymru ynghylch proses asesu ceisiadau y Cynllun Gostwng i ddeall a oedd awtomatiaeth asesuadau yn ffactor yng nghyfradd y newid yn llwyth achosion y Cynllun Gostwng. O blith yr ymatebion a gawsom, ymddengys nad yw awtomatiaeth yn ffactor sylweddol yn egluro amrywiad rhanbarthol. Mae'n bosibl y bydd angen mwy o ymchwil i sut mae cynghorau yn prosesu ceisiadau'r Cynllun Gostwng i bennu a oes ganddynt effaith ar amrywiad rhanbarthol¹⁹.
- 2.16 O blith yr 19 cyngor, profodd bob un ac eithrio un ohonynt gynnydd²⁰ yn llwyth gwaith oedran gweithio cyffredinol y Cynllun Gostwng ers mis Tachwedd 2019. Yn achos yr un cyngor na welodd gynnydd yn y cyfnod hwn, profodd ostyngiad o 5% yn y llwyth achosion. Y gostyngiad rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Medi 2020 oedd 3%, ac mae wedi parhau i ostwng hyd at fis Ebrill 2021.

¹⁹ Cafwyd ymateb gan 10 o'r 19 cyngor a gymerodd ran, ac o blith y rheiny cadarnhaodd 9 ohonynt eu bod yn defnyddio'r broses asesu awtomatig wrth ystyried y Cynllun Gostwng i aelwydydd etifeddol sydd wedi trosglwyddo i Gredyd Cynhwysol.

²⁰ Profodd dau o'r awdurdodau lleol bron dim newid (rhwng 1% a 2%).

2.17 Rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Ebrill 2021;

- y newid canolrif yn llwyth achosion oedran gweithio y Cynllun Gostwng oedd cynnydd o 7% (mewn cymhariaeth â 5.8% ym mis Medi 2020);
- gwelodd fwy na hanner yr 19 cyngor gynnydd yn llwyth achosion oedran gweithio y Cynllun Gostwng o rhwng 4% a 10% (mewn cymhariaeth â 2.3% i 7.8% ym mis Medi 2020);
- gwelodd bedwar cyngor gynnydd yn llwyth achosion oedran gweithio y Cynllun Gostwng o dros 10%; a
- y cynnydd mwyaf a welwyd yn llwyth achosion oedran gweithio y Cynllun Gostwng oedd 20%.

2.18 Dichon ei bod yn bwysig nodi fod cynnydd yn y llwyth achos yn debygol o adlewyrchu cyfuniad cymhleth o ffactorau; megis amodau economaidd lleol, cyflogaeth sectoraidd, a demograffeg leol, yn ogystal ag effaith hirdymor y pandemig.

Cynnydd yn llwyth achosion Credyd Cynhwysol y Cynllun Gostwng


2.19 Bu i bob cyngor yng Nghymru a gymerodd ran yn yr ymchwil weld y nifer o aelwydydd yn hawlio Credyd Cynhwysol yn eu llwyth achosion y Cynllun Gostwng yn cynyddu'n sylweddol rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Ebrill 2021. Yn ystod y cyfnod hwn:

- roedd y cynnydd yn llwyth achosion y Cynllun Gostwng ar gyfer aelwydydd yn derbyn Credyd Cynhwysol rhwng 28% a 194%;
- bu i hanner yr holl gynghorau weld eu llwyth achos Cynllun Gostwng y Credyd Cynhwysol yn cynyddu rhwng 45% a 106%; a
- chynnydd canolrif yn llwyth achosion Cynllun Gostwng y Credyd Cynhwysol oedd 70%.

2.20 Mae'n werth pwysleisio fod dadansoddiad blaenorol yr amrywiad hwn yn dangos mai prin yw'r cysylltiad â chyflwyno Credyd Cynhwysol yng Nghymru. Ymddengys mai'r prif ffactor sy'n effeithio ar y cynnydd mewn llwyth achosion Cynllun Gostwng

y Credyd Cynhwysol yw'r amrywiad rhanbarthol mewn derbynwyr Credyd Cynhwysol.

Ffigwr 2.3: Ystod y cynnydd % mewn llwyth achosion Credyd Cynhwysol y Cynllun Gostwng ledled cyngorau Cymru o fis Tachwedd 2019 i fis Ebrill 2021



3. Newidiadau i werth dyfarniadau'r Cynllun Gostwng

Cyfanswm gwerth dyfarniadau oedran gweithio y Cynllun Gostwng

- 3.1 O fis Tachwedd 2019 i fis Ebrill 2021, cynyddodd gyfanswm gwerth blynyddol dyfarniadau oedran gweithio y Cynllun Gostwng yng Nghymru o oddeutu £25 miliwn. Mae hwn yn gynnydd o 15%.
- 3.2 Yn y ddwy flynedd rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Ebrill 2021, mae atebolrwydd i dalu'r dreth gyngor ledled Cymru wedi cynyddu o gyfanswm o 8.8%²¹. Felly, mae'r cynnydd o 15% yng nghyfanswm gwerth dyfarniadau oedran gweithio y Cynllun Gostwng yn uwch na'r cynnydd yn nhaliad y dreth gyngor a gellir ei egluro gan y cynnydd yn y llwyth achosion o ganlyniad i'r pandemig cyfredol.
- 3.3 Yn gyffredinol, mae cynnydd yng ngwerth dyfarniadau'r Cynllun Gostwng ar gyfer grwpiau demograffig gwahanol yn dangos patrwm cyffelyb i newidiadau yn llwyth achosion y Cynllun Gostwng. Yn yr un modd â'r cynnydd a welwyd yn llwyth achosion y Cynllun Gostwng, mae'r cynnydd mwyaf yng ngwerth dyfarniadau'r Cynllun Gostwng yng Nghymru mewn perthynas ag aelwydydd oedran gweithio di-waith, hawlwr Credyd Cynhwysol, ac aelwydydd unigolion sengl. Mae hyn yn barhad o'r tueddiadau a welwyd yn yr Adroddiad Dros Dro. Mae'n werth pwysleisio er bod y dyfarniadau wythnosol yn llai na'r cyfartaledd, mae cyfanswm gwerth y Cynllun Gostwng ar gyfer aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol bron wedi dyblu.
- Mae gwerth dyfarniadau'r Cynllun Gostwng yng Nghymru ar gyfer aelwydydd oedran gweithio sy'n derbyn Credyd Cynhwysol, wedi cynyddu o £41 miliwn. Mae hwn yn gynnydd o 93% (mewn cymhariaeth â'r cynnydd o £28 miliwn neu 65% a adroddwyd ym mis Medi 2020).
 - Mae gwerth dyfarniadau'r Cynllun Gostwng yng Nghymru ar gyfer aelwydydd oedran gweithio sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol wedi gostwng o £16 miliwn. Mae hwn yn ostyngiad o 13% (mewn cymhariaeth â £11 miliwn, neu 9%, ym mis Medi 2020).

²¹ 3.8% yn 2021 a 4.8% yn 2020.

Tabl 3.1: Newid yng nghyfanswm gwerth dyfarniadau oedran gweithio y Cynllun Gostwng yng Nghymru Mis Tachwedd 2019 i fis Ebrill 2021

	2019		2021		Newid rhwng 2019 a 2021	
	Cyfanswm gwerth dyfarniadau'r Cynllun Gostwng	% cyfanswm dyfarniadau	Cyfanswm gwerth dyfarniadau'r Cynllun Gostwng	% cyfanswm dyfarniadau	Newid yng ngwerth dyfarniadau'r Cynllun Gostwng	% newid mewn gwerth
Cyfanswm llwyth achosion oedran gweithio	£166.5 M		£191.6 M		£25.0 M	15%
Credyd Cynhwysol	£43.7 M	26%	£84.3 M	44%	£40.6 M	93%
Budd-daliadau etifeddol	£122.8 M	74%	£107.2 M	56%	-£15.6 M	-13%
Statws cyflogaeth						
Mewn gwaith	£22.7 M	14%	£20.0 M	10%	-£2.7 M	-12%
Di-waith	£143.8 M	86%	£171.6 M	90%	£27.7	19%
Anabled						
Budd-daliadau anabled	£91.2 M	55%	£104.2 M	54%	£13.0	14%
Cyfansoddiad aelwyd						
Sengl	£77.5 M	47%	£93.1 M	49%	£15.6 M	20%
Cwpl heb blant	£21.8 M	13%	£23.9 M	13%	£2.1 M	10%
Cwpl â phlant	£22.8 M	13%	£25.1 M	13%	£2.3 M	19%
Unig riant	£44.4 M	27%	£49.3 M	26%	£5.0 M	11%

Dyfarniadau Wythnosol y Cynllun Gostwng

- 3.4 Mae dyfarniadau wythnosol cyfartalog y Cynllun Gostwng fesul aelwyd ledled Cymru wedi cynyddu ychydig rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Ebrill 2021.
- 3.5 Mae dyfarniadau wythnosol cyfartalog wedi cynyddu o £1 yr wythnos (o £19 yr wythnos ym mis Tachwedd 2019 i £20 yr wythnos ym mis Ebrill 2021). Mae hwn yn gynydd o 8%. Mae'r cynnydd cyfartalog mewn dyfarniadau wythnosol y Cynllun Gostwng yn is na'r cynnydd cyfartalog yn y dreth gyngor o 10.9%. Mae hyn yn

debygol o fod oherwydd cynnydd yn enillion cyfartalog ymhlith aelwydydd cyflogedig ym mis Ebrill 2021 mewn cymhariaeth â mis Tachwedd 2019 a'r gyfran uwch o aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol. Canfuwyd [mewn ymchwiliad blaenorol gan Policy in Practice](#) fod dyfarniadau Credyd Cynhwysol y Cynllun Gostwng yn gyffredinol is yn achos aelwydydd cyflogedig na dyfarniadau'r Cynllun Gostwng dan fudd-daliadau etifeddol, gan fod yr aelwyd yn cadw cyfran uwch o incwm a enillir (sy'n lleihau dyfarniadau'r Cynllun Gostwng).

- 3.6 Rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Ebrill 2021, mae dyfarniadau wythnosol y Cynllun Gostwng wedi cynyddu oddeutu yn unol â'r cynnydd cyffredinol mewn oedran gweithio o 8% ar gyfer y rhan fwyaf o gategorïau aelwydydd. Wedi dweud hynny, mae rhai eithriadau: mae aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol wedi gweld cynnydd yng ngwerth dyfarniadau wythnosol y Cynllun Gostwng (12%), gyda chynnydd mawr (o 10%) ymhlith yr aelwydydd di-waith a sengl. I'r gwrthwyneb, mae dyfarniadau wythnosol y Cynllun Gostwng i gyplau wedi gweld cynnydd cymharol fechan yn amrywio rhwng 5-6%.
- 3.7 Mae'r cynnydd uwch na'r cyfartaledd yn dyfarniadau'r Cynllun Gostwng ar gyfer aelwydydd Credyd Cynhwysol yn adlewyrchiad o gyfran uwch o lwyth achosion y Cynllun Gostwng yn ddi-waith mewn cymhariaeth â 2019.
- 3.8 Mae dyfarniad cyfartalog y Cynllun Gostwng ar gyfer aelwydydd mewn gwaith wedi parhau ar lefel gyffelyb rhwng 2019 a 2020.

Tabl 3.2: Newid yn nyfarniadau wythnosol cyfartalog y Cynllun Gostwng yng Nghymru – mis Tachwedd 2019 i fis Ebrill 2021


	Dyfarniad wythnosol y Cynllun Gostwng 2019	Dyfarniad wythnosol y Cynllun Gostwng 2021 o £/wythnos	Newid yn nyfarniad y Cynllun Gostwng 2019 i 2021 o £/wythnos	Newid % yn nyfarniad y Cynllun Gostwng o £/wythnos
Oedran gweithio	£19	£20	£2	8%
Credyd Cynhwysol	£17	£19	£2	12%
Budd-daliadau etifeddol	£19	£21	£2	9%
Statws cyflogaeth				
Cyflogedig	£14	£13	-£1	-9%
Di-waith	£20	£22	£2	10%
Anabledd				
Yn derbyn Taliad Annibyniaeth Personol, Lwfans Byw i'r Anabl neu gyfwerth	£20	£22	£2	9%
Cyfansoddiad aelwyd				
Cwpl heb blant	£18	£19	£2	10%
Cwpl â phlant	£23	£25	£1	6%
Unig riant	£22	£23	£1	6%
Cwpl heb blant	£17	£19	£1	8%

Amrywiad rhanbarthol yng ngwerth blynyddol Dyfarniadau oedran gwaith y Cynllun Gostwng yng Nghymru

- 3.9 Gwelodd yr holl gynghorau yng Nghymru a gymerodd ran yn yr ymchwil gynnydd yng ngwerth dyfarniadau oedran gweithio y Cynllun Gostwng. Wedi dweud hynny, mae amrywiad sylweddol rhwng cynghorau. Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd yn amrywiad llwyth achos y Cynllun Gostwng:

- Roedd y cynnydd yng ngwerth blynyddol dyfarniadau'r Cynllun Gostwng gan gynghorau Cymru yn amrywio o 3% (cynnydd o £321,000) i 26% (cynnydd o £1.3 miliwn).
- Gwelodd hanner yr holl gynghorau gynnydd o rhwng 10% a 20%.
- Y cynnydd canolrifol oedd 16% (cynnydd o £930,000).

Ffigwr 3.3: Ystod y cynnydd % mewn gwerth blynyddol dyfarniadau oedran gweithio y Cynllun Gostwng ledled Cynghorau Cymru o fis Tachwedd 2019 i fis Ebrill 2021



4. Ôl-ddyledion y dreth gyngor

- 4.1 Cafodd Policy in Practice ddata ôl-ddyledion y dreth gyngor gan nifer o gynghorau. Darparodd bedwar cyngor ddata ar gyfer y tri phwynt dadansoddi (mis Medi 2019, mis Medi 2020 a mis Ebrill 2021). Er mwyn sicrhau cysondeb ar draws y tri chiplun dadansoddi, dadansoddwyd data ar gyfer y pedwar cyngor hyn. Felly, ni ddylid ystyried y tueddiadau a'r patrymau yn gynrychiolaeth o'r tueddiadau cyffredinol ledled Cymru, ond wedi dweud hynny, maent yn dal i ddarparu dealltwriaethau defnyddiol.
- 4.2 Cafodd data ôl-ddyledion y dreth gyngor ei brosesu a'i gyfuno â data y Detholiad Budd-dal Tai Sengl a'r Cynllun Gostwng. Mae'r canlyniadau yn wahanol i'r rheiny a gyflwynwyd yn yr Adroddiad Dros Dro a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2020 gan fod sampl llai o gynghorau wedi'i hystyried.
- 4.3 Mae'r dadansoddiad yn dangos fod cynnydd yn llwyth achosion y Cynllun Gostwng yn gyffredinol gysylltiedig â nifer uwch o aelwydydd sydd ag ôl-ddyledion y dreth gyngor ar gyfer cynghorau penodol. Fodd bynnag, pwysig yw nodi bod amrywiaeth mawr yn y newid mewn llwyth achosion a lefel gyfartalog o ôl-ddyledion rhwng y pedwar cyngor.

Cyfran llwyth achosion y Cynllun Gostwng mewn ôl-ddyledion

- 4.4 Mae cyfran o aelwydydd oedran gweithio y Cynllun Gostwng sydd ag ôl-ddyledion y dreth gyngor yn ardaloedd y pedwar cyngor wedi cynyddu o 11% o lwyth achosion y Cynllun Gostwng ym mis Medi 2019 i 16% ym mis Ebrill 2021. Digwyddodd y cynnydd hwn yn bennaf rhwng 2019 a 2020. Mae lefelau'r ôl-ddyledion wedi parhau'n gyson hyd at fis Ebrill 2021.
- 4.5 Cynyddodd y gyfran o aelwydydd ag ôl-ddyledion y dreth gyngor i bob cyngor rhwng mis Medi 2019 a mis Medi 2020.
- 4.6 Mae amrywiad nodedig rhwng cynghorau o ran y newid yn y gyfran o aelwydydd yn llwyth achosion oedran gweithio y Cynllun Gostwng sydd mewn ôl-ddyledion rhwng mis Medi 2020 a mis Ebrill 2021. Gwelodd un cyngor ostyngiad o 14% ym mis Medi 2020 i 8% o aelwydydd ym mis Ebrill 2021. Mewn cymhariaeth, gwelodd gyngor

arall gynnydd yn nifer o aelwydydd y Cynllun Gostwng mewn ôl-ddyledion rhwng mis Medi 2020 a mis Ebrill 2021, o 18% i 24%.

Tabl 4.1: Cymhariaeth o gyfran aelwydydd y Cynllun Gostwng ag ôl-ddyledion y dreth gyngor, o fis Medi 2019, mis Medi 2020 a mis Ebrill 2021 (yn seiliedig ar y pedwar cyngor)

	Medi 2019	Medi 2020	Ebrill 2021	Newid rhwng 2019 a 2021
Cyfran o aelwydydd incwm isel ag ôl-ddyledion	11%	16%	16%	5%

- 4.7 Ymddengys bod y cynnydd yn y nifer o aelwydydd oedran gweithio sy'n derbyn y Cynllun Gostwng ac mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor yn seiliedig ar aelwydydd sydd wedi dechrau derbyn y Cynllun Gostwng yn ddiweddar a'r rheiny sydd wedi trosglwyddo i Gredyd Cynhwysol. Ar gyfer y ddau grŵp hyn, digwyddodd y cynnydd mewn aelwydydd ag ôl-ddyledion y dreth gyngor rhwng 2019 a 2020, gyda'r lefelau yn parhau'n weddol gyson yn 2021.


Tabl 4.2: Y gyfran o lwyth achosion oedran gweithio y Cynllun Gostwng ag ôl-ddyledion y dreth gyngor ymhlith aelwydydd incwm isel yn ardal pedwar Cyngor yng Nghymru yn ôl math o fudd-dal - mis Medi 2019, mis Medi 2020, a mis Ebrill 2021.

	Medi 2019	Medi 2020	Ebrill 2021
Yn dal i dderbyn budd-daliadau etifeddol Aelwydydd a oedd yn derbyn budd-daliadau etifeddol ym mis Medi 2019 a mis Ebrill 2021	6%	7%	7%
Yn dal i dderbyn Credyd Cynhwysol Aelwydydd a oedd yn derbyn Credyd Cynhwysol ym mis Medi 2019 a mis Ebrill 2021	23%	26%	23%
Wedi trosglwyddo i Gredyd Cynhwysol Aelwydydd yn derbyn budd-daliadau etifeddol yn 2019 a Chredyd Cynhwysol yn 2020 NEU yn derbyn budd-daliadau etifeddol yn 2019 a 2020 ac yna Credyd Cynhwysol yn 2021	15%	27%	26%
Wedi'u cynnwys yn y cyfuniadau data sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol Aelwydydd nad ydynt yn nata 2019. Yn derbyn budd-daliadau etifeddol yn 2020 neu 2021	1%	7%	11%
Wedi'u cynnwys yn y cyfuniadau data sy'n derbyn Credyd Cynhwysol Aelwydydd nad ydynt yn nata 2019. Yn derbyn Credyd Cynhwysol yn 2020 neu 2021	1%	19%	27%
Wedi gadael y cyfuniad data Aelwydydd yn y data 2019 ond wedi gadael y cyfuniad data yn 2020 neu 2021	12%	8%	6%

- 4.8 Mae 26% o aelwydydd sydd wedi trosglwyddo i Gredyd Cynhwysol rhwng mis Medi 2019 a mis Ebrill 2021, ac wedi parhau i dderbyn y Cynllun Gostwng, mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor. Mae hwn yn gynydd o 11% o fis Medi 2019. Digwyddodd y cynnydd cymesur hwn rhwng mis Medi 2019 a mis Medi 2020 (27%) a pharhaodd yn gyson ym mis Ebrill 2021 (26%).
- 4.9 Yn achos aelwydydd sydd wedi parhau i gael budd-daliadau etifeddol a'r Cynllun Gostwng o fis Medi 2019 i fis Ebrill 2021, mae'r gyfran mewn ôl-ddyledion wedi cynyddu ychydig o 6% i 7%.

- 4.10 Mae'r cynnydd cymesur mwyaf yn ôl-ddyledion y dreth gyngor yn gysylltiedig ag aelwydydd a gafodd eu cynnwys yng nghyfuniad data y Cynllun Gostwng ers mis Medi 2019 ac sy'n derbyn Credyd Cynhwysol. Mae'n debygol bod yr aelwydydd hyn yn hawlio Credyd Cynhwysol am y tro cyntaf. O blith y pedwar cyngor sydd wedi'u cynnwys yn y dadansoddiad hwn, dim ond 1% o'r garfan oedd mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor yn flaenorol; cynyddodd y gyfran hon i 19% ym mis Medi 2020 ac eto i 27% ym mis Ebrill 2021. Gall y ffigyrau hyn gynrychioli aelwydydd sy'n cael cysylltiadau â'r system budd-daliadau am y tro cyntaf, ar ôl dioddef gostyngiad yn eu hincwm neu ddiweithdra yn sgil effaith economaidd Covid-19.

Ffigwr 4.1 Cyfran o aelwydydd incwm isel mewn ôl-ddyledion y dreth gyngo



Lefel gyfartalog yr ôl-ddyledion

- 4.11 Ar gyfer aelwydydd yn llwyth achosion Cynllun Gostwng ag ôl-ddyledion y dreth gyngor y pedwar cyngor, cynyddodd y lefel gyfartalog o ôl-ddyledion o £15, o £434 i £448, rhwng mis Medi 2019 a mis Ebrill 2021. Mae hyn yn wahanol i ganfyddiadau'r Adroddiad Dros Dro lle nodwyd gostyngiad bach i lefel ôl-ddyledion y dreth gyngor.

Tabl 4.3: Cymhariaeth o'r gyfran o aelwydydd y Cynllun Gostwng ag ôl-ddyledion y dreth gyngor, o fis Medi 2019, mis Medi 2020 a mis Ebrill 2021 (yn seiliedig ar y pedwar cyngor)

	Medi 2019	Medi 2020	Ebrill 2021	Newid rhwng 2019 a 2021
Lefel gyfartalog yr ôl-ddyledion	£433.85	£397.91	£448.97	£15.12

- 4.12 Mae lefel gyfartalog y newid mewn ôl-ddyledion yn cuddio amrywiadau rhwng cynghorau; o fis Medi 2019 i fis Ebrill 2021 gwelodd un cyngor ostyngiad o £50 yn yr ôl-ddyledion cyfartalog, lle gwelodd gyngor arall gynnydd o £16²².
- 4.13 Mae lefelau cyfartalog ôl-ddyledion y dreth gyngor wedi gostwng ar gyfer y rheiny mewn cyflogaeth o £24 rhwng mis Medi 2019 a mis Ebrill 2021. Mae'r gostyngiad hwn yn weledol i ddechrau yn nata mis Medi 2020 ac wedi parhau'n gyson ym mis Ebrill 2021.
- 4.14 Gwelwyd cynnydd mewn ôl-ddyledion cyfartalog i aelwydydd di-waith o £474 ym mis Medi 2019 i £520 ym mis Ebrill 2021. Serch hynny, nid yw hyn yn cynrychioli cynnydd parhaus yn ôl-ddyledion yn ystod y cyfnod gan fod yr aelwydydd hyn wedi gweld gostyngiad mewn ôl-ddyledion cyfartalog i £427 ym mis Medi 2020.
- 4.15 Gwelwyd cynnydd cyffredinol mewn ôl-ddyledion cyfartalog i aelwydydd hunangyflogedig o £37 rhwng mis Medi 2019 a mis Ebrill 2021.

Tabl 4.4: Lefel gyfartalog yr ôl-ddyledion ymhlith carfan oedran gweithio y Cynllun Gostwng ar draws pedwar cyngor yng Nghymru yn ôl statws economaidd - mis Medi 2019, mis Medi 2020 a mis Ebrill 2021

	Ôl-ddyledion cyfartalog 2019	Ôl-ddyledion cyfartalog 2020	Ôl-ddyledion cyfartalog 2021	Newid rhwng 2019 a 2021
Cyflogedig	£382.50	£358.07	£358.44	-£24.06
Di-waith	£474.43	£427.87	£519.84	£45.40
Hunangyflogedig	£201.06	£206.35	£239.30	£38.24

²² Caiff ôl-ddyledion cyfartalog eu cyfrifo fel y swm o ôl-ddyledion ar gyfer cyngor unigol ar adeg benodol wedi'i rannu gan y nifer o aelwydydd ag ôl-ddyledion.

5. Rhagweld y newid posibl yn llwyth achosion oedran gweithio a dyfarniadau'r Cynllun Gostwng hyd at fis Ebrill 2022

- 5.1 Bydd disgwyl i ddiweithdra gynyddu yng Nghymru ddiwedd 2021 ac yn 2022, yn unol â gweddill economi'r DU. Mae'r cynnydd tymor byr disgwyledig mewn diweithdra yn seiliedig ar y Cynllun Cadw Swyddi drwy Gyfnod y Coronafeirws (CCSC neu'r cynllun ffyrlo) a'r Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig²³ (Cynllun Cymorth Incwm) yn arafu, cyn cael eu diddymu'n llwyr ddiwedd mis Medi 2021. Dymuna Llywodraeth Cymru ddeall effaith debygol cynnydd mewn diweithdra ar lwyth achosion y Cynllun Gostwng yng Nghymru.
- 5.2 Un nodwedd amlwg o ymateb economaidd Llywodraeth y DU i bandemig Covid-19 yw'r estyniad parhaus i gynlluniau disodli incwm (CCSC a'r Cynllun Cymorth Incwm) a chymorth llesiant (£20/wythnos yn ychwanegol i Gredyd Cynhwysol), yr oedd disgwyl iddynt ddod i ben yn wreiddiol ym mis Ebrill 2021. Ar 3 Mawrth 2021, cyhoeddodd y Canghellor fwriad Llywodraeth y DU i ymestyn y mesurau hyn hyd at fis Medi 2021. Er bod yr £20 ychwanegol i Gredyd Cynhwysol a gwaharddiad y Llawr Isafswm Incwm wedi'u hymestyn i gyd-fynd â diwedd y CCSC a'r Cynllun Cymorth Incwm ym mis Medi, daeth y gefnogaeth i aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol (yn benodol, yr £20/wythnos yn ychwanegol i ddi-ystyriaethau incwm Credydau Treth a Budd-dal Tai) a ddaeth i ben ym mis Ebrill 2021.
- 5.3 Yn yr Adroddiad Dros Dro, cafodd llwyth achosion disgwyledig y Cynllun Gostwng yn 2021 ei ystyried dan ddwy sefyllfa budd-daliadau oherwydd yr ansicrwydd ynghylch bwriad y Llywodraeth i gadw neu ddiddymu'r mesurau cymorth.
- 5.4 Mae'r adroddiad hwn yn wahanol o ran ei ddull ac yn adlewyrchu bwriad mwyaf tebygol Llywodraeth y DU i gael gwared ar fesurau erbyn mis Ebrill 2022. Felly, caiff y newidiadau i lwyth achosion y Cynllun Gostwng a chost erbyn mis Ebrill 2022 eu modelu gan gymryd arnynt fod yr ychwanegiad o £20/wythnos at Gredyd

²³ Mae'r Cynllun Cymorth Incwm wedi darparu cefnogaeth economaidd i aelwydydd hunangyflogedig cymwys bum gwaith. Mae dau o'r grantiau hyn - a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2021 - yn daladwy yn 2021 (ddiwedd mis Ebrill a diwedd mis Gorffennaf, yn eu trefn). [Coronafeirws: Cynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig - Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin \(parliament.uk\)](https://www.parliament.uk/business/committees/committees-a-z/commons-select/coronavirus-committee/reports/coronavirus-support-for-the-self-employed/) (Seely, 2021).

Cynhwysol yn cael ei ddiddymu a bod y Llawr Isafswm Incwm yn cael ei ailgyflwyno.

Methodoleg

- 5.5 Defnyddiodd Policy in Practice ragolygon diweddaraf y [Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol](#) i ragweld y cynnydd tebygol yn llwyth achosion oedran gweithio y Cynllun Gostwng yng Nghymru.
- 5.6 Erbyn mis Ebrill 2022, mae'n debygol y bydd diweithdra yng Nghymru yn cynyddu o 68,000 ([4.4% o boblogaeth yr oedran gweithio](#)) i 88,000 (cynnydd o 20,000 neu 5.7% o boblogaeth yr oedran gweithio). Yn yr un modd â rhagfynegiadau blaenorol, rhesymol yw casglu fod cyfran fawr o'r cynnydd hwn (18,000)²⁴ yn debygol o fod yn ganlyniad uniongyrchol i'r CCSC a'r Cynllun Cymorth Incwm yn arafu ac yn dod i ben erbyn mis Medi 2021. Yn yr un modd â 2020, mae cyfran y rheiny sydd wedi'u gwarchod drwy'r cynlluniau hyn o grwpiau incwm is yn llawer mwy na'r rheiny sydd ag enillion uwch. Mae'r [amcangyfrifon diweddaraf sydd ar gael](#) (Gardiner a Slaughter, 2020)²⁵ yn dangos fod 33% o'r rheiny sydd ar ffyrlo ar hyn o bryd yn perthyn i'r cwintel isaf²⁶ o ran incymau, gyda 50% ychwanegol yn perthyn i'r ail a'r trydydd cwintel incymau.

Effaith ragweledig ar lwyth achosion oedran gweithio y Cynllun Gostwng

- 5.7 Erbyn mis Ebrill 2022, wedi i'r ychwanegiad o £20 yr wythnos i Gredyd Cynhwysol ddod i ben ac wedi ailgyflwyno'r Llawr Isafswm Incwm i aelwydydd hunangyflogedig, gallai llwyth gwaith Cynllun Gostwng Cymru gynyddu o swm is o 3,600. Yn gyntaf, mae hyn oherwydd na fydd nifer o aelwydydd hunangyflogedig yn gymwys bellach am y Cynllun Gostwng pan fydd asesiad y Cynllun Gostwng yn seiliedig ar Lawr

²⁴ Nid yw'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllideb wedi darparu amcangyfrifon wedi'u diweddarau mewn perthynas â'r trosiant hwn. Fel y cyfryw, mae'r modelu yn cymryd arno y bydd y gymhareb o ddiweithdra ffyrlo: diweithdra heb fod yn ffyrlo yn parhau ar 9:1.

²⁵ Mae [dadansoddiad diweddarach o RF](#) (Cominetti, et al., 2021) yn awgrymu bod hyn wedi cynyddu oherwydd bod cyflogaeth â thâl uwch yn fwy tebygol o fod wedi ildio rhag bod ar ffyrlo rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2021, ond nid oes dadansoddiad wedi'i ddiwygio ar gael.

²⁶ Mae cwintelau yn rhannu gwerthoedd yn 5 grŵp. Er enghraifft, mae'r cwintel isaf yn cyfeirio at yr aelwydydd sydd wedi'u rhoi yn 20% isaf y dosbarthiad incwm.

Isafswm Incwm Credyd Cynhwysol. Yn ail, mae hyn oherwydd aelwydydd cyflogedig sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn gweld mwy o incwm a enillir yn cael ei ystyried er mwyn arafu'r Cynllun Gostwng. Efallai y bydd Llywodraeth Cymru yn dymuno ystyried sut y gallai liniaru'r effaith hon.

Tabl 5.1: Newid yn llwyth achosion oedran gweithio y Cynllun Gostwng - mis Ebrill 2021 i fis Ebrill 2022

	2021		2022		Newid rhwng 2021 a 2022	
	Aelwydydd	% llwyth achosion	Aelwydydd	% llwyth achosion	Aelwydydd	% llwyth achosion
Cyfanswm oedran gweithio	182,500		186,100		3,600	2%
Credyd Cynhwysol	84,800	46%	91,000	49%	6,200	7%
Budd-daliadau etifeddol	97,700	54%	95,100	51%	-2,600	-3%
Statws cyflogaeth						
Cyflogedig	30,500	17%	30,500	16%	0	0%
Di-waith	152,000	83%	155,600	84%	3,600	2%

Effaith ragweledig ar werth blynyddol dyfarniadau'r Cynllun Gostwng i aelwydydd oedran gweithio

- 5.8 Erbyn mis Ebrill 2022, rhagwelir y bydd gwerth blynyddol dyfarniadau'r Cynllun Gostwng i aelwydydd oedran gweithio yng Nghymru yn cynyddu o £9.6 miliwn, o £192 miliwn i £201 miliwn (5%). Mae hyn yn unol â'r cynnydd cyfartalog o 5.1% mewn atebolrwydd i dalu'r dreth gyngor a ddefnyddir yn y sefyllfa fodlu ac mae oherwydd bod y cynnydd yng nghyfanswm llwyth achosion y Cynllun Gostwng yn cael ei wrthbwysu gan y gyfran uwch o dderbynwyr y Cynllun Gostwng a ddisgwylir i hawlio Credyd Cynhwysol. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae dyfarniadau wythnosol y Cynllun Gostwng ar gyfer aelwydydd Credyd Cynhwysol yn dueddol o fod yn is na'r rheiny sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol.

Tabl 5.2: newid yng nghyfanswm gwerth oedran gweithio'r Cynllun Gostwng - mis Ebrill 2021 i fis Ebrill 2022

	2021		2022		Newid rhwng 2021 a 2022	
	Cyfanswm gwerth	% cyfanswm gwerth	Cyfanswm gwerth	% cyfanswm gwerth	Newid yng ngwerth dyfarniadau'r Cynllun Gostwng	%
Cyfanswm oedran gweithio	£191.6 M		£201.1 M		£9.6 M	5%
Credyd Cynhwysol	£84.3 M	44%	£91.2 M	45%	£6.9 M	8%
Budd-daliadau etifeddol	£107.2 M	56%	£109.9 M	55%	£2.7 M	3%
Statws cyflogaeth						
Cyflogedig	£20.0 M	10%	£16.1 M	8%	£-3.9 M	-20%
Di-waith	£171.6 M	90%	£184.9 M	92%	£13.3 M	8%

6. Casgliad

- 6.1 Rhwng mis Mawrth 2020 a mis Ebrill 2021, mae economi'r DU wedi cywasgu o ganlyniad i'r pandemig Covid-19 a'r cyfyngiadau cymdeithasol ac economaidd cysylltiedig. Mae graddfa'r cyfyngiadau wedi amrywio o sectorau penodol yn cael eu cau'n llwyr i gyfyngiadau ar weithgareddau cymdeithasol sydd wedi arwain at ostyngiad yn y galw am wasanaethau ac eiddo penodol. Roedd effaith gychwynnol cau economi'r DU yn rhannol ym mis Mawrth 2020 yn arbennig o ddifrifol, gan arwain at ostyngiad mewn incwm i rai aelwydydd wrth i oriau gwaith leihau, neu golli swyddi i eraill. Gwnaeth nifer o aelwydydd gais am fudd-daliadau prawf modd am y tro cyntaf, gan arwain at gynnydd o 71% yn y nifer o aelwydydd yn hawlio Credyd Cynhwysol yng Nghymru yn y chwe mis cyn mis Gorffennaf 2020. Ers hynny, mae'r nifer o aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol wedi parhau i gynyddu, er ar gyflymder mwy graddol.
- 6.2 Dros yr un cyfnod, mae llwyth achosion oedran gweithio y Cynllun Gostwng ledled Cymru wedi dilyn patrwm o newid cyffelyb: rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Ebrill 2021, cynyddodd y llwyth achosion o 6% gyda chynnydd cyflym cychwynnol o 5% yn hanner cyntaf y pandemig (rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Medi 2020). Mae'r rhan olaf yn adlewyrchu natur gyflym y sioc economaidd i economi'r DU ym mis Mawrth 2020. Mae'r cynnydd mwy cymedrol rhwng mis Medi 2020 a mis Ebrill 2021 yn debygol o adlewyrchu nifer o ffactorau: yn gyntaf, mae ymestyn y CCSC a'r Cynllun Cymorth Incwm wedi gwanhau ac oedi effaith cyfyngiadau economaidd ar ddiweithdra. Yn ail, mae [tystiolaeth gynnar](#) (Cominetti, et al., 2021) yn awgrymu fod rhai aelwydydd wedi gallu dod o hyd i gyflogaeth wrth i'r economi ddechrau ailagor. Mae hyn yn golygu y gallai ffocws ar newidiadau i'r llwyth achosion cyffredinol guddio 'corddwr' wrth i aelwydydd gwahanol symud i mewn ac allan o lwyth achosion y Cynllun Gostwng. Mae olrhain tafliwybr hydredol aelwydydd penodol drwy gydol y pandemig y tu hwnt i gwmpas yr ymchwil hwn.
- 6.3 Fel y nodwyd yn yr Adroddiad Dros Dro, gall y bwlch rhwng newidiadau mewn llwyth achosion Credyd Cynhwysol a'r Cynllun Gostwng eich syfrdanu ond gellir ei egluro gan ystod o ffactorau. Mae is-set o aelwydydd, er enghraifft, pobl ifanc yn hawlio Credyd Cynhwysol tra eu bod yn byw gyda rhieni, yn gymwys am Gredyd

Cynhwysol ond heb fod yn gymwys am y Cynllun Gostwng. Yn ogystal, nid yw rhai aelwydydd yn ymwybodol o'r angen i wneud cais ar wahân i'r Cynllun Gostwng, tra bod eraill efallai yn oedi rhag gwneud cais i'r Cynllun Gostwng ac yn dibynnu ar gynilion neu gefnogaeth gan gyfeillion a theulu. I'r rheiny sy'n hawlio'r Cynllun Gostwng, mae'n bosibl bod oedi rhwng yr adeg pan wneir cais am Gredyd Cynhwysol a phan mae'r aelwyd yn ymddangos yn nata llwyth achosion y Cynllun Gostwng.

- 6.4 Mae'r cynnydd yn llwyth achosion y Cynllun Gostwng yng Nghymru wedi arwain at gynnydd o oddeutu £25 miliwn (15%) yng ngwerth blynyddol dyfarniadau oedran gwaith y Cynllun Gostwng ledled Cymru. Mae'r cynnydd mewn canran yng ngwerth dyfarniadau'r Cynllun Gostwng yn uwch na'r cynnydd o 6% yn llwyth achosion y Cynllun Gostwng oherwydd y cynnydd cronus yn y dreth gyngor hyd at fis Ebrill 2021 (8.8% ar gyfartaledd) a'r cynnydd yn y gyfran o aelwydydd di-waith sy'n derbyn dyfarniad uwch fel rhan o'r Cynllun Gostwng mewn cymhariaeth â'r rheiny mewn gwaith.
- 6.5 Rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Ebrill 2021, nid yw'r newid yn llwyth achosion oedran gweithio y Cynllun Gostwng yng Nghymru wedi bod yn unffurf ar draws cynghorau ond mae wedi parhau i fod yn weddol gyson ar draws y rhan fwyaf o grwpiau demograffig. Yn benodol, nid yw'r newid yn y llwyth achosion yn ôl math o aelwyd ac anabledd a welwyd yn yr Adroddiad Dros Dro (rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Medi 2020) yn sylweddol bellach rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Ebrill 2021. Yn ogystal ag aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol, mae aelwydydd sengl a di-waith yn fwy tebygol o weld cynrychiolaeth gynyddol yn y llwyth achosion dros y tymor hirach, gyda'r newid mwyaf amlwg yn ymwneud â'r trosglwyddiad cyffredinol o fudd-daliadau etifeddol i Gredyd Cynhwysol. Caiff hyn ei achosi gan drosglwyddiad naturiol yn cyflymu wrth i newid mewn incwm orfodi pobl i drosglwyddo rhwng cynlluniau budd-daliadau, yn ogystal â mewnlifiad o hawliadau Credyd Cynhwysol newydd.
- 6.6 Yn ogystal, mae'n werth nodi natur leol y sioc economaidd sydd ynghlwm â Covid-19; tuedd a nodwyd gyntaf yn yr Adroddiad Dros Dro (mis Tachwedd 2019 i fis Medi 2020) sydd wedi parhau ym mis Ebrill 2021. Gwelodd dau gyngor yng Nghymru naill

ai dim cynnydd neu gynnydd bach yn y llwyth achosion (-5%), tra bod y cyngor â'r cynnydd mwyaf wedi gweld cynnydd o 20%. Yn yr un modd, mae'r cynnydd yng ngwerth blynyddol dyfarniadau oedran gweithio'r Cynllun Gweithio wedi amrywio'n sylweddol rhwng cyngorau, o gynydd o 3% mewn gwerth i gynnydd o 26% mewn gwerth. Er nad yw'r canfyddiadau hyn yn rhyfeddol o ystyried effaith Covid-19 ar sectorau economaidd penodol, maent yn arwain at yr angen i ddeall effaith leol a cheisio ymatebion lleol priodol.

- 6.7 Yn yr un modd â llwyth achosion y Cynllun Gostwng, mae'r sioc sydyn i'r economi ym mis Mawrth 2020 yn cael ei hadlewyrchu'n bennaf gan y gyfran uwch o aelwydydd oedran gweithio sy'n derbyn y Cynllun Gostwng a oedd hefyd ag ôl-ddyledion y dreth gyngor ym mis Medi 2020. Cynyddodd niferoedd ôl-ddyledion y dreth gyngor o bump y cant yn ychwanegol (11% i 16%) ac yn nodwedd ar draws y pedwar cyngor yr oedd data ar gael ar eu cyfer. Erbyn mis Ebrill 2021, daeth y newidiadau i'r gyfran o aelwydydd ag ôl-ddyledion y dreth gyngor yn fwy amrywiol ar draws cyngorau; rhai yn gweld gostyngiad tra bod eraill yn gweld cynnydd yn y gyfran o lwyth achosion y Cynllun Gostwng mewn ôl-ddyledion y dreth gyngor. Mae canfyddiadau yn awgrymu, er bod haelioni cynigion Cynllun Gostwng Cymru yn cynnig peth diogelwch i aelwydydd yn erbyn cronni ôl-ddyledion y dreth gyngor, y gallai fod ffactorau eraill ar waith, megis y gwahanol ddulliau casglu.
- 6.8 Ar y cyfan, mae'r lefel o ôl-ddyledion y dreth gyngor ymhlith llwyth achosion oedran gweithio y Cynllun Gostwng wedi tueddu i gynyddu (o gyfartaledd o £15) ond mae'n amodol i amrywiaeth rhanbarthol sylweddol. Mae'r lefel o ôl-ddyledion wedi amrywio hefyd i aelwydydd yn ôl eu statws economaidd; aelwydydd hunangyflogedig yw'r unig grŵp i weld cynnydd cyson yn y nifer o ôl-ddyledion y dreth gyngor dros y cyfnod llawn (2019 i fis Ebrill 2021). I'r gwrthwyneb, profodd aelwydydd di-waith gynnydd ag ôl-ddyledion y dreth gyngor ostyngiad cychwynnol yn ôl-ddyledion (rhwng 2019 a 2020) ac yna cynnydd rhwng mis Medi 2020 a mis Ebrill 2021. Yn yr un modd, gwelodd aelwydydd cyflogedig ostyngiad yn y lefel o ôl-ddyledion y dreth gyngor rhwng 2019 a 2020, a bu i hynny barhau'n sefydlog yn 2021. Mae hyn yn gyson â'r diogelwch rhannol a gynigir gan Gynllun Gostwng Cymru sy'n cael ei gyfrifo yn seiliedig ar 100% o atebolrwydd i dalu'r dreth gyngor ac yn cyferbynnu â

chyngorau Lloegr sy'n cynnig lefelau diogelwch is, yn ôl ymchwil gan Policy in Practice.

- 6.9 Fel y nodwyd yn yr Adroddiad Dros Dro, y rheiny sydd fwyaf tebygol o fod ag ôl-ddyledion y dreth gyngor yw aelwydydd sy'n trosglwyddo i Gredyd Cynhwysol o fudd-daliadau etifeddol neu sy'n gwneud hawl newydd am Gredyd Cynhwysol. Er gwaethaf pwysigrwydd ffactorau lleol yng ngoleuni amrywiad rhanbarthol, mae hyn yn awgrymu fod Credyd Cynhwysol yn parhau i chwarae rhan yn y nifer o aelwydydd ag ôl-ddyledion y dreth gyngor a lefel gyfartalog yr ôl-ddyledion. Mae'n werth nodi hefyd fod aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol sy'n derbyn y Cynllun Gostwng am y tro cyntaf, er eu bod yn dal i fod yn llai tebygol o fod ag ôl-ddyledion mewn cymhariaeth â'u cymheiriaid Credyd Cynhwysol, wedi profi tuedd cynyddol i fod ag ôl-ddyledion (cynnydd o 1% yn 2019 i 11% yn 2021). Mae hyn yn debygol o fod oherwydd hunan-ddetholiad, gydag aelwydydd â chymorth, tai gwarchod neu dros dro â chynrychiolaeth ormodol yn y grŵp hwn.
- 6.10 Ar yr amser ysgrifennu, mae Llywodraeth y DU wedi dangos ei bwriad, erbyn mis Ebrill 2022, i ymatal rhag y ffurfiau mwy uniongyrchol o gefnogaeth drwy'r system lesiant a'r cynlluniau cymorth incwm, ac yn hytrach dibynnu ar adfywio economaidd sy'n gysylltiedig ar gyflogaeth. Wedi dweud hynny, mae cryn dipyn o ansicrwydd yn parhau i fodoli ynghylch rhagolwg economaidd y DU, llwyddiant y rhaglen frechu sy'n parhau i fynd rhagddi a datblygiad amrywiolion newydd Covid-19. Dylai'r rhagfynegiadau sydd wedi'u modelu a gynhwysir yn yr adroddiad hwn gael eu dehongli yn ofalus. Er gwaethaf y cafeatau uchod, disgwylir cynnydd mewn diweithdra o ganlyniad i'r CCSC a'r Cynllun Cymorth Incwm yn dod i ben ym mis Medi 2021 (er, yn fwy graddol nag y rhagwelwyd yn wreiddiol). Mae hyn oherwydd y bydd rhai aelwydydd yn trosglwyddo o fod ar ffyrlo i fod yn ddi-waith, yn ogystal â chwmnïau yn gwneud gwaith ailstrwythuro economaidd parhaus ar ffurf colli swyddi. Yn ôl cyfraddau uchaf rhagweledig diweithdra y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, disgwylir y bydd llwyth achosion oedran gweithio Cynllun Gostwng Cymru yn gostwng o 3,600 o aelwydydd yn ychwanegol erbyn mis Ebrill 2022.

- 6.11 Mae unrhyw gynnydd yn llwyth achosion oedran gweithio y Cynllun Gostwng erbyn mis Ebrill 2022 yn debygol o gynyddu cyfanswm gwerth dyfarniadau'r Cynllun Gostwng. Gan gymryd y bydd pawb sy'n newydd i dderbyn y Cynllun Gostwng yn derbyn Credyd Cynhwysol ac yn ddi-waith, rhagwelir y bydd cyfanswm gwerth dyfarniadau oedran gweithio y Cynllun Gostwng ledled Cymru yn cynyddu i £201 miliwn (cynnydd o £9.6 miliwn mewn cymhariaeth â'r cynllun cyfredol ym mis Ebrill 2021).
- 6.12 Bydd y cynnydd mewn aelwydydd sy'n wynebu sioc mewn incwm, gyda nifer yn dibynnu ar fudd-daliadau prawf modd neu'n mynd i ddyled am y tro cyntaf, yn cael effaith ar yr adnoddau sydd eu hangen i gefnogi'r aelwydydd hyn. Hyd yn hyn, mae cynghorau wedi chwarae rôl allweddol yn cefnogi eu cymunedau mewn perthynas â hyn. Bydd hyn yn parhau i fod yn bwysig o fis Ebrill 2022 ymlaen er mwyn atal aelwydydd sydd eisoes yn ei chael hi'n anodd rhag mynd i argyfwng mwy difrifol drwy eu cefnogi gydag uchafu incwm a rheoli dyledion. Yn hanfodol, bydd cynghorau yn chwarae rhan flaenllaw yn nodi'r amodau y gall aelwydydd ddychwelyd i gyflogaeth pan mae amodau'r economi yn caniatáu.

Prif Ganfyddiadau

- Mae llwyth achosion oedran gweithio y Cynllun Gostwng wedi cynyddu o 6% yng Nghymru rhwng mis Tachwedd 2019 a mis Ebrill 2021. Cafwyd y rhan fwyaf o'r cynnydd hwn hyd at fis Medi 2020, pan gynyddodd y llwyth achosion o 5%.
- Mae trosglwyddiad amlwg o fudd-daliadau etifeddol i Gredyd Cynhwysol yn llwyth achosion oedran gweithio y Cynllun Gostwng; cynyddodd y nifer o aelwydydd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol o 72% tra gwelwyd gostyngiad o 20% yn y nifer o aelwydydd sy'n derbyn budd-daliadau etifeddol. Mae hyn yn gyffelyb i dueddiadau a welwyd yn yr Adroddiad Dros Dro.
- Mewn cymhariaeth â chanfyddiadau'r Adroddiad Dros Dro, mae effaith Covid-19 ar llwyth achosion y Cynllun Gostwng a'r gost wedi bod yn fwy graddol. Mae hyn yn adlewyrchu'r economi yn ailagor yn raddol ac yn cyferbynnu â'r sioc sydyn a gafwyd ym mis Mawrth 2020.
- fis Tachwedd 2019 i fis Ebrill 2021, cynyddodd gyfanswm gwerth blynyddol dyfarniadau'r Cynllun Gostwng yng Nghymru o oddeutu £25 miliwn (15%). Mae hyn yn fwy na'r cynnydd cyfartalog a welwyd yn yr atebolrwydd i dalu'r dreth gyngor ledled Cymru yn ystod yr un cyfnod ac yn adlewyrchu dyfarniadau uwch na'r cyfartaledd ymhlith derbynwyr di-waith y Cynllun Gostwng ym mis Ebrill 2021.
- Mae'r newid yn llwyth achosion oedran gweithio y Cynllun Gostwng a gwerth y dyfarniadau yn amrywio'n sylweddol rhwng cyngorau Cymru; roedd y newidiadau mewn llwyth achosion yn amrywio o ostyngiad o 5% i gynnydd o 20% tra bod newidiadau i werth dyfarniadau oedran gweithio y Cynllun Gostwng yn amrywio o gynnydd o 3% i gynnydd o 26% ar draws cyngorau.
- Rhwng mis Medi 2019 a mis Ebrill 2021, gwelwyd cynnydd o 5% yn y nifer o aelwydydd llwyth achosion oedran gweithio y Cynllun Gostwng ag ôl-ddyledion y dreth gyngor ar draws y pedwar cyngor a ddarparodd data ôl-ddyledion. Mae'r cynnydd yn sgil pobl newydd yn hawlio budd-daliadau yn ogystal ag aelwydydd sydd wedi trosglwyddo i Gredyd Cynhwysol.
- Rhagwelir erbyn mis Ebrill 2022 y gallai llwyth achosion oedran gweithio y Cynllun Gostwng ledled Cymru gynyddu o 3,600 o aelwydydd yn ychwanegol neu 2%. Mae'r cynnydd cyfatebol yng ngwerth blynyddol dyfarniadau oedran gweithio y Cynllun Gostwng ledled Cymru yn gymesurol uwch a rhagwelir y bydd yn cynyddu o 5% (£9.6 miliwn), i £201 miliwn.

Cyfeiriadau

Bell et al., T., 2021. *Understanding the labour market: pandemic not pandemonium*, Llundain: Resolution Foundation.

Cominetti, N., McCurdy, C. a Slaughter, H., 2021. *Low Pay Britain*, Llundain: Resolution Foundation.

Crawford, R. a Karjalainen, H., 2020. *The coronavirus pandemic and older workers*, Llundain: s.n.

Gardiner, L. a Slaughter, H., 2020. *The effects of the coronavirus crisis on workers: Flash findings from the Resolution Foundation's coronavirus survey*, Llundain: Resolution Foundation.

Ifan et al., G., 2021. *UK Budget 2021: the implications for Wales and the Welsh budget*, Caerdydd: Prifysgol Caerdydd.

Sargeant, J., 2020. *Co-ordination and Divergence: Devolution and coronavirus*, Llundain: Institute for Government.

Seely, A., 2021. *Coronavirus: Self-Employment Income Support Scheme*, Llundain: House of Commons Library.

Llywodraeth Cymru, 2020. *Deall Effaith Credyd Cynhwysol ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor ac Ôl-ddyledion Rhent yng Nghymru: Adroddiad Terfynol*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru, 2021. *Deall effaith Covid-19 ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor yng Nghymru: Canfyddiadau Dros Dro*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru, ar y gweill 2021. *Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor: adroddiad blynyddol 2020 i 2021*, Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Atodiad A – Rhestr o gynghorau sy'n cymryd rhan yn yr ymchwil hwn

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Cyngor Caerdydd

Cyngor Sir Gaerfyrddin

Cyngor Sir Ceredigion

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cyngor Sir Ddinbych

Cyngor Sir y Fflint

Cyngor Bwrdeistref Sirol Bro Morgannwg

Cyngor Sir Gwynedd

Cyngor Sir Ynys Môn

Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Cyngor Sir Fynwy

Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Cyngor Dinas Casnewydd

Cyngor Sir Penfro

Cyngor Sir Powys

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Atodiad B - Rhestr o gynghorau a ddarparodd ddata ôl-ddyledion y dreth gyngor ar gyfer yr ymchwil hwn

Cyngor Sir Gâr

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cyngor Sir Gwynedd

Cyngor Sir Ynys Môn

Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Cyngor Dinas Casnewydd

Cyngor Sir Penfro

Cyngor Sir Powys